

Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012-22 Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Diben

- 1 Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno adroddiad pwynt canol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP) ac mae'n gwahodd barn rhanddeiliaid i lywio'r gwaith hwn.

Cyd-destun

- 2 Mae WIIP yn gynllun 10 mlynedd a gyhoeddwyd yn 2012 fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i gynta a'r angen i ddarparu ysgogiad economaidd. Ei nod oedd gwneud y mwyaf o bŵer gwario cyfalaf Cymru drwy ddefnyddio adnoddau presennol a nodi a sicrhau budd o ffynonellau ariannu ychwanegol a ffurfiau arloesol newydd ar gyllid. Roedd yn ceisio cwmpasu, blaenoriaethu a chydlynu trefniadau darparu buddsoddiadau seilwaith mawr yng Nghymru.
- 3 Mae Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi hwb i lefelau buddsoddiad a thargedu prosiectau sy'n cyflawni budd i bobl Cymru – gan wella cartrefi, ysgolion ac ysbytai. Rydym wedi gwneud y defnydd gorau o'n cyfalaf a'n pwerau benthyca newydd ac wedi datblygu'r cynllun cyllid arloesol newydd – y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae'r cyfuniad hwn o gyllid traddodiadol ac arloesol yn ein helpu i ddarparu ein rhaglen seilwaith uchelgeisiol, sy'n cynnwys buddsoddiadau strategol mawr, megis Metros De Cymru a Gogledd Cymru, Canolfan Ganser Felindre newydd, band B o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a ffordd liniaru'r M4.
- 4 Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn pennu blaenoriaethau buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid cyfalaf mewn adroddiad canol pwynt a diweddariad o WIIP y gwanwyn hwn. Bydd hyn yn adlewyrchu newidiadau i'r dirwedd economaidd ac ariannol a gwleidyddol ers 2012, gan gynnwys y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd; etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2016 a chyhoeddi *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*.
- 5 Bydd adroddiad WIIP wedi'i ddiweddarau yn adlewyrchu cyflawniadau, ymrwymadau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a bydd yn ceisio cefnogi a llywio gwaith cynnar Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru newydd ar gynllunio tymor hwy. Bydd hefyd yn cynnwys y llif buddsoddiadau arfaethedig diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector preifat – rheilffordd, ynni a dŵr – i nodi cyfleoedd buddsoddi allweddol; galluogi trefniadau cydweithio a denu a meithrin y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol er mwyn cyflawni prosiectau seilwaith mawr.
- 6 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith sy'n cefnogi gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac yn darparu twf economaidd cynaliadwy i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Cynlluniau gwariant cyfalaf cyfredol

- 7 Nododd cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 gynlluniau i fuddsoddi cyfalaf gwerth £5bn dros y tair blynedd nesaf mewn prosiectau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys £173m ychwanegol ar gyfer Metro De Cymru, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad i £433m, a rhyddhau £340m ychwanegol, fel rhan o'n buddsoddiad £1.4bn, yn ein hymrwymiad blaenllaw i adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn.
- 8 Roedd y Gyllideb derfynol, a gafodd ei chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 16 Ionawr, yn cynnwys dyraniadau cyfalaf ychwanegol, gan gynnwys £75m dros y tair blynedd nesaf i gyflymu'r broses o ddarparu'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a £70m ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi gwelliannau yn y GIG.
- 9 Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn darparu rhagor o fanylion am y ffordd bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y defnydd mwyaf o'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i gyflawni ei blaenoriaethau ar y cyd â chyhoeddi WIIP wedi'i ddiweddarau yn y gwanwyn.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- 10 Ymgymerir â rhaglen ymgysylltu â diwydiant a rhanddeiliaid i lywio'r adroddiad pwynt canol. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol.
- 11 Rydym yn croesawu eich barn am y ffordd rydym yn sefydlu'r pum ffordd o weithio yng ngwaith cynllunio cyllideb gyfalaf a pha mor ddefnyddiol yw'r llif buddsoddiadau arfaethedig ac a oes cwrpas ar gyfer gwella.
- 12 Byddwn yn ystyried barn rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf ac rydym yn bwriadu cyhoeddi WIIP wedi'i ddiweddarau yn y gwanwyn.
- 13 Er mwyn rhannu eich barn, gofyn am ragor o wybodaeth a chymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol, e-bostiwch Sarah Govier yn Nhrysorlys Cymru WIIPMailbox@gov.wales